Pecyn Dogfen Cyhoeddus

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau | Dyddiad: | Dydd Iau, 11 Mai 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824 712554 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU, DYDD IAU, 18 MAI 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI IS-GADEIRYDD** (Tudalennau 7 - 8)

Penodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn 2023/24 y Cyngor (disgrifiad o'r rôl wedi'i atodi).

**4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 9 - 18)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 9 Chwefror, 2023 (copi ynghlwm).

**6 ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N YMWNEUD Â'R CEISIADAU AR Y RHESTR FER AR GYFER CYLLID O'R GRONFA FFYNIANT GYFFREDIN** (Tudalennau 19 - 72)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm - **sy'n cynnwys atodiadau cyfrinachol**) sy'n gofyn i'r Pwyllgor, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor, adolygu'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 25 Ebrill 2023.

**10.15am – 11.15am**

**EGWYL 11.15am - 11.30am**

**7 LLWYDNI AC ANWEDD MEWN EIDDO YN Y SECTOR RHENTU PREIFAT A STOC DAI'R GYMDEITHAS DAI** (Tudalennau 73 - 78)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol, sy'n egluro graddau rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor o ran llwydni, anwedd a materion adfeiliad mewn eiddo Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r sector rhentu preifat yn Sir Ddinbych.

**11.30am – 12.15pm**

**8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO** (Tudalennau 79 - 104)

Ystyried adroddiad gan y Cydlynydd Craffu (copi ynghlwm) yn gofyn am adolygiad o raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am faterion perthnasol.

**12.15pm – 12.30pm**

**9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR**

Cael y wybodaeth ddiweddaraf gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar Fyrddau a Grwpiau amrywiol y Cyngor.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Joan Butterfield
(Cadeirydd)

Jeanette Chamberlain-Jones
Kelly Clewett
Pauline Edwards
Bobby Feeley
Martyn Hogg
Terry Mendies
Raj Metri
Peter Scott
David Williams
Elfed Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
*(*dileuer un)*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

*(Gweler y nodyn isod)**

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Swydd Ddisgrifiad ar gyfer aelod, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Craffu**

*(fel a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor)*

Rôl: **Aelod Pwyllgor Craffu /Cadeirydd**
**Cyflog:** Band 3 (Cadeirydd yn unig)

*Sylwch: Mae'r eitemau sydd wedi'u hamlygu'n benodol i rôl y Cadeirydd (ac yn ei (h)absenoldeb yr Is-Gadeirydd)*

**1. PRIF GYFRIFOLDEBAU**

- I'r Cyngor Llawn

**2. PWRPAS Y RÔL**

- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad.
- Cymryd rhan yn llawn yng ngweithgareddau'r Pwyllgor Craffu, datblygu a chyflwyno ei raglen waith ac yn unrhyw grwpiau gorchwyl a gorffen cysylltiedig.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a monitro effaith polisi'r Cyngor.
- Gwneud y gweithredwr yn gyfrifol, monitro perfformiad a chyflwyno gwasanaethau a herio penderfyniadau trwy'r trefniadau galw i mewn lle bo hynny'n briodol.
- Datblygu blaenraglen waith y pwyllgor.
- Adrodd ar gynnydd yn erbyn y rhaglen waith i'r Cyngor ac i bobl eraill fel sy'n briodol.
- Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau clir gan sicrhau bod amcanion y cyfarfod yn cael eu diwallu, ac y glynir wrth y cod ymddygiad, rheolau sefydlog a gofynion sefydliadol eraill.
- Gweithredu fel canolbwynt cysylltu rhwng y cyngor, y gymuned a chyrff allanol mewn perthynas â'r swyddogaeth craffu.
- Annog cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r pwyllgor yn y pwyllgor a'r grwpiau gorchwyl a gorffen.
- Asesu perfformiadau unigol a chyfunol yn y pwyllgor a chysylltu â'r Arweinydd Grŵp perthnasol i symud cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn eu blaenau.
- Diwallu cyfrifoldebau rôl yr aelod etholedig.

**3. GWERTHOEDD a DISGWYLIADAU**

- Ymroi i werthoedd Cyngor Sir Ddinbych a'r gwerthoedd canlynol mewn swydd gyhoeddus:

  - Balchder
  - Hygrededd
  - Parch

- Undod
- Mynychu pob cyfarfod perthnasol.
- Cynnal materion yn electronig, h.y. cyfarfodydd a chyfathrebu, lle bo’n bosibl yn y Cyngor.
- Mynychu hyfforddiant gorfodol fel y dynodwyd yn y cod ymddygiad a’r cyfansoddiad.
- Cymryd rhan mewn adolygiad datblygu blynyddol i wella’n barhaus perfformiad yr aelod a’r Cyngor.
- Esbonio a chyfrif am berfformiad personol fel Cynghorydd Sir yn rheolaidd, yn enwedig trwy gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor.

**PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Iau, 9 Chwefror 2023 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain Jones, Kelly Clewett, Pauline Edwards, Bobby Feeley, Martyn Hogg, Raj Metri, Peter Scott (Is-gadeirydd) ac Elfed Williams.

Roedd yr Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Elen Heaton yn bresennol ar wahoddiad y Pwyllgor i gyflwyno eitem o'i phortffolio.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyd-bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (DS); Cydlynydd Craffu (RE); Gweinyddwyr Pwyllgorau - y sawl sy'n cynnal (SW) Cofnodion - (NH)

**Cynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC):** Alyson Constantine (AC), Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cymunedol Iechyd Integredig (Ardal Ganolog) ar gyfer eitem fusnes 5, a Fleur Evans, Pennaeth Gweithrediadau a Darparu Gwasanaethau (Canol) Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ar gyfer eitem fusnes 6.

**Cynrychiolydd Heddlu Gogledd Cymru:** Ditectif Ringyll Vicki Keegans (VK) ar gyfer eitem fusnes 6.

Arsylwyr: Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas a'r Cynghorwyr Hugh Irving ac Andrea Tomlin.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd David Williams a gan Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau. Roedd David Soley, Cyd-bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, yn dirprwyo ar ran y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn y cyfarfod.

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cynghorydd Kelly Clewett gysylltiad personol ag eitemau busnes 5 a 6 gan ei bod yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni thynnwyd unrhyw faterion brys i sylw'r Cadeirydd.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022.

**Cywirdeb:**
Tudalen 8 y pecyn rhaglen: Dywedodd y Cynghorydd Martyn Hogg y dylai'r pennawd Saesneg ddweud 'Crime Statistics Analysis' ac nid 'Crime Statics Analysis'.

Bu i'r Pwyllgor:

***Benderfynu**: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2022 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau, yn amodol ar y diwygiad uchod.*

**Materion yn codi:** Tudalen 8, 'Blaenoriaeth 3 – Blaenoriaethau Lleol': mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd gwybodaeth wedi dod i law mewn perthynas â'r 'Cynllun Gofyn i Angela' dywedodd y Cydlynydd Craffu fod y wybodaeth wedi'i dosbarthu fel rhan o'r ddogfen 'Briff Gwybodaeth' i holl aelodau'r pwyllgor yn gynharach yn yr wythnos. Roedd Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor wedi dweud, hyd y gwyddant, nad oedd ystadegau'n cael eu casglu mewn perthynas â'r 'Cynllun Gofyn i Angela' gan yr awdurdod lleol nac unrhyw un arall. Cynllun i fariau unigol ydoedd yn bennaf heb unrhyw fecanwaith adrodd yn ôl hyd y gwyddai swyddogion y Cyngor. Yn gyffredinol fe'i hyrwyddwyd gan sefydliadau fel menter arfer da.

**5 PROSIECT YSBYTY CYMUNEDOL GOGLEDD SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Cynghorydd Elen Heaton, Brosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych i'r Pwyllgor. Bwriad y Prosiect oedd datblygu safle Ysbyty Brenhinol Alexandra (RAH) yn y Rhyl.

Mynegodd yr Aelod Arweiniol bwysigrwydd y prosiect oherwydd y pwysau presennol sy'n wynebu Ysbyty Glan Clwyd. Roedd y Prosiect yn ddatblygiad hanfodol i Sir Ddinbych ac yn brif flaenoriaeth. Roedd Arweinwyr Prosiect yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac yn gweithio mewn partneriaeth agos a pharhaus gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC).

Diolchodd Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gymuned Iechyd Integredig i'r Pwyllgor am gael ei wahodd i'r cyfarfod ac aeth ymlaen i roi cyflwyniad a oedd yn cynnwys y manylion canlynol: -

- Roedd y Prosiect Cyfalaf yn gymhleth o ran darpariaeth.
- Roedd cyfleoedd i'r safle gynnwys gwasanaethau ychwanegol megis Uned Mân Anafiadau drwy'r broses Achos Busnes.
- Cymeradwywyd Achos Busnes Llawn ar gyfer BIPBC ym mis Mawrth 2021.
- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 fod y prosiect yn gadarn ac yn gymeradwy, a bod bellach angen nodi cyllid.

- Cymeradwyodd BIPBC Strategaeth Ystadau ym mis Ionawr 2023 gan osod y prosiect RAH o fewn y 6 uchaf, gydag Achos Busnes Llawn wedi'i gwblhau.
- Ym mis Ionawr 2023, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Bwrdd Iechyd gadarnhau bod yr RAH yn flaenoriaeth a gofynnwyd am gymorth mewn egwyddor gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Roedd y Bwrdd Iechyd yn llunio ymateb.
- Unwaith y byddai cymeradwyaeth lawn ar gyfer cyllid wedi'i rhoi, byddai'r prosiect yn cymryd 3 mis i'w roi ar waith a 31 mis i'r cam adeiladu gael ei gwblhau.

Eglurodd y Cyfarwyddwr IHC fod yna broses fanwl yr oedd angen ei dilyn o fewn y Bwrdd Iechyd ar gyfer pob datblygiad. Er bod hon wedi bod yn broses hirfaith, roedd wedi rhoi'r cyfle i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei bod yn gywir, gan gynnwys nifer o wasanaethau ychwanegol o bwys i'w cynnig ar safle RAH.

Eglurwyd y broses gymeradwyo i'r Pwyllgor fel yr amlinellir isod:-

- Achos Amlinellol Strategol
- Achos Busnes Amlinellol
- Achos Busnes Llawn - Yna gellid cytuno ar gyllid.

Diolchodd y Cyfarwyddwr IHC i'r Cyngor am eu partneriaeth agos wrth helpu i gyflawni'r prosiect a chroesawodd gwestiynau gan yr aelodau.

Arweiniodd trafodaeth rhwng Aelodau at gwestiynau ynghylch yr amser yr oedd wedi'i gymryd i gyrraedd y cam hwn o'r Prosiect, a pha mor hir y byddai'n ei gymryd i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru. Yn anffodus, dywedodd y Cyfarwyddwr IHC nad oedd ganddi'r wybodaeth honno. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai llinell gyfathrebu barhaus wrth symud ymlaen.

Mynegodd y Cynghorydd Martyn Hogg rai pryderon ynghylch deall y broses gymeradwyo a'r camau sydd ynghlwm wrth bob cam. Gofynnodd a oedd siart llif y gellid ei rhoi i ddangos hyn ac i gefnogi dealltwriaeth yr aelodau o'r broses. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr IHC y byddai siart llif yn nodi camau'r broses gymeradwyo fel y nodir uchod. Parhaodd i egluro bod llwybr cylchol ar gyfer pob un o'r camau a amlinellwyd a oedd yn caniatáu i gwestiynau gael eu gofyn. Cam presennol y prosiect oedd bod cwestiynau wedi'u gofyn gan Lywodraeth Cymru a bod angen ymateb iddynt, byddai hyn wedyn yn rhan o'r broses o gwblhau'r Achos Busnes a fyddai'n arwain at gytuno ar gyllid. Dros yr wythnosau nesaf roedd y Cyfarwyddwr IHC yn obeithiol y byddent wedi ymateb i Lywodraeth Cymru, ac y byddai hyn wedyn yn hwyluso'r penderfyniad terfynol.

Holwyd sut olwg fyddai ar Ysbyty Brenhinol Alexandra unwaith y byddai'r gwaith adeiladu wedi'i gwblhau a pha wasanaethau y cytunwyd y byddai'n gweithredu o'r safle. Dywedodd Cyd-bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymorth Cymunedol fod Achos Busnes Llawn wedi'i rannu'n flaenorol. Roedd hwn yn nodi'r Gwasanaethau a fyddai'n cael eu darparu, gan gynnwys darluniau o'r ysbyty ar ôl ei gwblhau, ond byddai'n sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu eto gydag Aelodau'r Pwyllgor.

Holodd yr aelodau a oedd cyfle i graffu ar Lywodraeth Cymru dros eu proses gwneud penderfyniadau. Er enghraifft, sut y gallai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y prosiect yn symud ymlaen i'r camau nesaf yn barhaus. Eglurodd y Cyfarwyddwr IHC eu bod wedi bod trwy broses gyda'r Strategaeth Ystadau, a thybiwyd bod hyn yn galluogi sgyrsiau parhaus gyda'r Llywodraeth a'r Bwrdd Iechyd.

Gwnaed sylwadau terfynol gan yr Aelodau ynghylch faint o amser yr oedd wedi'i gymryd i'r prosiect gyrraedd y cam presennol. Caewyd llawer o ysbytai cymunedol lleol yn Sir Ddinbych flynyddoedd yn ôl ar yr addewid y byddai'r cyfleuster hwn yn cael ei ddisodli.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu diweddariad a chroesawodd ddiweddariad pellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Medi 2023.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***PENDERFYNWYD*** ***yn amodol ar yr uchod a darparu'r wybodaeth ychwanegol-***

***(i) derbyn y wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o gyflwyniad Diweddariad Prosiect Datblygu Ysbyty Brenhinol Alexandra; a***
***(ii) gofyn am adroddiad cynnydd pellach ar bob agwedd ar ddatblygiad y Prosiect i'w gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2023.***

Ar y pwynt hwn, gan fod y Pwyllgor ar y blaen, cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Cadeirydd i amrywio trefn y busnes a dod ag eitem Rhaglen Waith Craffu ymlaen.

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Tywysodd y Cydgysylltydd Craffu yr Aelodau drwy'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu (dosbarthwyd ymlaen llaw).

Eglurwyd bod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu wedi cyfarfod ar 19 Ionawr 2023 a bu iddynt ystyried nifer o geisiadau am Graffu yn y cyfarfod hwnnw. O'r ceisiadau a ystyriwyd, gofynnodd y Grŵp i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau drefnu i gael dwy eitem ar ei Raglen Gwaith Cychwynnol ar gyfer mis Mai 2023.

Sef:-

- Yr ail bleidlais ar gyfer Ardal Gwelliannau Busnes Posibl y Rhyl
- Ansawdd a Chyflwr Stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Sir Ddinbych.

Mewn perthynas â'r rhaglen ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a oedd i'w gynnal ar 30 Mawrth 2023, nodwyd nad oedd unrhyw eitemau i'w trafod yn y cyfarfod hwnnw ar hyn o bryd. Awgrymodd y Cydlynydd Craffu y dylid cadw dyddiad cyfarfod mis Mawrth rhag ofn y byddai unrhyw faterion brys yn codi. Os na cheir unrhyw fusnes brys, dylid canslo'r cyfarfod hwnnw.

Dywedodd y Cydlynydd Craffu fod y Cabinet ym mis Rhagfyr 2022 wedi cymeradwyo Proses Gyfalaf Newydd ac wedi cefnogi'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Grŵp Craffu Cyfalaf newydd. Byddai hyn yn debyg i'r hen Grŵp Buddsoddi Strategol a oedd mewn bodolaeth yn ystod tymor y Cyngor blaenorol. Cafwyd cais y dylai un cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu gael ei benodi i wasanaethu ar y Grŵp hwn. Byddai chwe chyfarfod y flwyddyn a disgwylir i'r cynrychiolydd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl iddo/iddi fod yn y cyfarfod. Felly, gofynnwyd i un cynrychiolydd ac un dirprwy gynrychiolydd gael eu henwebu, eu dewis a'u cytuno gan y Pwyllgor.

Croesawodd y Cadeirydd enwebiadau gan y Pwyllgor.

Enwebwyd y Cynghorydd Peter Scott i fod yn gynrychiolydd y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, a'r Cynghorydd Joan Butterfield yn cael ei henwebu fel dirprwy. Eiliwyd y ddau enwebiad a phleidleisiodd yr Aelodau o blaid y penodiadau. Ar ddiwedd y drafodaeth,

Bu i'r Pwyllgor

***<u>Benderfynu:</u>***

***(i) yn amodol ar gynnwys adroddiad cynnydd ar Brosiect Datblygu Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych/Ysbyty Brenhinol Alexandra ar gyfer cyfarfod mis Medi 2023, cadarnhau ei flaenraglen waith fel y manylir arni yn Atodiad 1 i'r adroddiad;***
***(ii) os na fydd unrhyw fusnes wedi'i gyflwyno yn nes at ddyddiad y cyfarfod arferol nesaf ar 30 Mawrth 2023, bod y cyfarfod yn cael ei ganslo; a***
***(iii) penodi'r Cynghorydd Peter Scott i wasanaethu fel y cynrychiolydd ar y Grŵp Craffu Cyfalaf, gyda'r Cynghorydd Joan Butterfield i wasanaethu fel y dirprwy.***

Ar y pwynt hwn, gohiriwyd y Pwyllgor am egwyl, gan ailddechrau am 11.10am

## 7 GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH MEWN PERTHYNAS AG IECHYD MEDDWL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol yr eitem fusnes Gweithio mewn Partneriaeth mewn perthynas ag Iechyd Meddwl i'r Pwyllgor. Nodwyd bod y Cyngor, BIPBC a Heddlu Gogledd Cymru (HGC) i gyd yn gweithio mewn partneriaeth yn rheolaidd yn y maes penodol hwn.

Eglurodd Cyd-bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i'r Pwyllgor fod y tri sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd, a rhoddodd amlinelliad byr o rôl y Cyngor o fewn y bartneriaeth.

Eglurodd fod y tri sefydliad yn cydweithio mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd ac yn bennaf maent yn gweithio o fewn y swyddogaethau statudol yr oedd yn rhaid iddynt eu cyflawni. Roedd hyn yn bennaf yn cynnwys materion yn ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda phobl ag anawsterau iechyd meddwl ac yr oedd angen ymyrraeth arnynt. Golygai bod angen i'r tri phartner gydweithio'n rheolaidd.

Rhoddwyd yr enghraifft ganlynol:-

Pe bai aelod o'r gymuned angen cael asesiad iechyd meddwl, byddai Gweithwyr Cymdeithasol a Meddygon yn cymryd rhan yn yr asesiad ac yn ymweld â'r trigolyn. Pe bai’r trigolyn mewn ardal benodol lle’r oedd yn anodd ei gyrraedd/chyrraedd, byddai’r Awdurdod Lleol yn cysylltu â’r Llys Ynadon i gael gwarant, a byddai gofyn i Heddlu Gogledd Cymru gynorthwyo. Roedd gan yr Heddlu bwerau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, oedd yn golygu eu bod yn gallu dal unigolion oedd yn ymddangos fel petaent ag anawsterau Iechyd Meddwl. Byddai’r Heddlu’n cysylltu â’r Awdurdod Lleol a’r Bwrdd Iechyd ac yna byddai’r tri sefydliad yn gweithio gyda’i gilydd i sicrhau bod yr unigolyn hwnnw’n cael yr asesiad, y gefnogaeth a’r gofal yr oedd ei angen arno/arni.

Aeth yn ei flaen i egluro bod yna Dimau Meddwl Cymunedol, a bod y rhain yn bennaf yn weithwyr y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol. Roeddent yn gweithio gyda phobl a oedd wedi'u hatgyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Meddwl ac yr oedd angen gofal a chymorth parhaus arnynt.

Eglurodd y Pennaeth Gweithrediadau a Darparu Gwasanaethau (Canolog) (BIPBC) waith y Bwrdd Iechyd yn y bartneriaeth. Roedd timau integredig yn gweithio gyda'i gilydd yn bennaf. Roedd gan y Bwrdd Iechyd rwymedigaethau statudol i gyflawni o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd gan y Bwrdd Iechyd Wasanaeth Cyswllt Cyfiawnder Troseddol penodedig a oedd yn cefnogi galwadau 999, drwy roi cymorth a chyfarwyddyd pe bai unrhyw ofynion iechyd meddwl. Roedd Timau Byrddau Iechyd wedi'u cydleoli hefyd o fewn yr Awdurdod Lleol.

Aeth y Pennaeth Gweithrediadau ymlaen i ddweud y bu cynnydd sylweddol mewn Atgyfeiriadau Iechyd Meddwl yn ystod ac ers pandemig COVID. Roedd problemau parhaus o ran recriwtio a chadw staff, a gafodd effaith ar y gwasanaethau y gellid eu darparu a'r gweithlu a oedd eisoes yn ei le. Roedd trafodaethau i fynd i’r afael â hyn yn mynd rhagddynt.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn edrych ar wasanaethau eraill sydd ar gael i helpu pobl, heb fod angen iddynt gael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Statudol. Yn ddiweddar, lansiwyd gwasanaeth 111 Press 2, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos 8.30am-11pm. Bydd y Gwasanaeth hwn yn wasanaeth 24 awr yn y dyfodol ac ar gael i holl aelodau'r Gymuned sydd angen cefnogaeth. Pe bai unrhyw un o'r galwadau i'r gwasanaeth hwn yn cael eu hystyried yn un brys, yna byddai ambiwlans neu'r Heddlu yn cael eu hanfon. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud y mwyaf o gydweithio ac yn ei ystyried yn hanfodol i lwyddiant y bartneriaeth.

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau ei bod yn hollbwysig bod y gwaith partneriaeth rhwng yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd a Heddlu Gogledd Cymru yn parhau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gweithrediadau am ei chyflwyniad.

Eglurodd y Ditectif Ringyll, Vicki Keegans, rôl Heddlu Gogledd Cymru o fewn y Bartneriaeth Waith a'i rôl o fewn yr Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn.

Ailadroddodd y Ditectif Ringyll fod y bartneriaeth yn gweithio'n dda ar draws y tri sefydliad.

Roedd perthynas waith agos rhwng Personél yr Heddlu, yr Arweinydd Iechyd Meddwl o fewn y Bwrdd Iechyd, ac asiantaethau eraill i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a Chanllawiau Cenedlaethol.

Mynegodd y Ditectif Ringyll fod Iechyd Meddwl yn bwysig iawn ac y dylai fod yn rhan o fywyd pawb yn y gymuned.

Eglurwyd bod yr Heddlu yn ymateb i unigolion mewn argyfwng er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw niwed yn cael ei achosi i'r unigolion na'r bobl o'u cwmpas. Cafwyd galwadau yn yr ystafell reoli a phenderfynwyd a oedd angen ymatebion brys i sicrhau diogelwch pawb dan sylw.

Y galwadau a ddaeth i'r Ystafell Reoli ymhlith eraill oedd:

- Dychmygu hunanladdiad
- Hunan-niweidio gydag arfau
- Pryderon y cyhoedd ynghylch unigolion yn rhoi eu hunain mewn perygl.

Gan weithredu ar y galwadau, byddai ambiwlansys yn cael eu hanfon, a cheid cyfathrebu pellach gyda phartneriaid iechyd a'r Nyrsys Iechyd Cyfiawnder Troseddol wedi'u Cydleoli.

Roedd y Nyrsys Iechyd Cyfiawnder Troseddol wedi bod yn rhan o ddarparu hyfforddiant iechyd meddwl i Swyddogion Heddlu ar y rheng flaen a staff swyddfa. Roedd y Nyrsys hefyd yn cynnig cymorth a chyngor diogelu ar adeg o argyfwng. Mewn llawer o achosion roedd angen cefnogi'r unigolyn dan sylw i fynd i'r ysbyty yn ddiogel er mwyn cael ei asesu a'i drin.
Parhaodd y Ditectif Ringyll i egluro bod gan yr Heddlu yr awdurdod i ddal aelodau diamddiffyn o'r Gymuned dan Adran 136 (Iechyd Meddwl). Gweithredwyd ar hyn gydag ystyriaeth ofalus er mwyn galluogi i'r unigolion hyn gael eu cludo i fan diogel.

Byddai pob Swyddog Heddlu yn cyflwyno atgyfeiriad ynghylch yr unigolyn mewn perygl, a fyddai wedyn yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill, er enghraifft Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, i gynorthwyo gyda'r gofal a'r cymorth a roddir. Byddai'r atgyfeiriad wedyn yn destun adolygiad pellach i benderfynu ar ymateb addas i gefnogi'r unigolyn. Gallai gynnwys trafodaeth strategaeth aml-asiantaeth o dan Ddeddfwriaeth Gweithdrefnau Cymru

Gyfan. Adolygwyd yr holl unigolion a ddelir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl gan Swyddfa'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Rhannwyd ystadegau a data gyda Llywodraeth Cymru a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir.

Dywedodd y Ditectif Ringyll fod Swyddogion yn cael mynediad rheolaidd at hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant Dementia. Roedd 86% o Swyddogion Heddlu Gogledd Cymru wedi cael hyfforddiant Iechyd Meddwl mewnol. Yn y misoedd nesaf byddai Swyddogion yn mynychu Cwrs Iechyd Meddwl Pobl Ifanc, a gynhelir gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS).

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr o'r tri sefydliad am eu hesboniadau manwl ynghylch y gwaith gwerthfawr a wnaed ganddynt.

Trafododd Aelodau'r canlynol mewn mwy o fanylder: -

- Holodd y Cynghorydd Martyn Hogg a ellid gwneud unrhyw welliannau i'r broses atgyfeirio ac a oedd integreiddio gwasanaethau yn gweithio'n dda. Dywedodd swyddogion fod tendr ar gael ar hyn o bryd, gyda'r nod o newid y system atgyfeirio i system o'r enw Pronto. Byddai hyn yn symud y ddibyniaeth oddi wrth e-bostio. Yn hytrach, byddai adroddiad awtomataidd yn cael ei anfon at asiantaethau er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw wybodaeth bwysig yn cael ei cholli. Roedd Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad ar waith, sef tîm aml-asiantaeth wedi'i hyfforddi i adolygu atgyfeiriadau Iechyd Meddwl, er mwyn penderfynu ar y gwasanaeth a'r cymorth mwyaf addas i'r unigolyn dan sylw.
- Codwyd cwestiynau ynghylch lle'r oedd unigolion a oedd wedi'u dal yn cael eu dal, ac a oedd y lleoedd hyn yn cael eu hystyried yn ddigonol ar gyfer unigolyn â Phroblemau Iechyd Meddwl. Eglurodd y Swyddogion Ymateb y byddai unigolyn sy'n cael ei ddal dan Adran 136 yn cael ei ddal yn un o'r Unedau Adran 136 yn yr ysbyty fel man diogel.
- Holwyd pa mor sensitif oedd Dementia yn cael ei drin yn y Gymuned a phwysigrwydd cefnogaeth i deuluoedd. Dywedodd swyddogion fod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gweithio ar Strategaeth Dementia, a oedd yn cynnwys llwybr i ofalwyr a theuluoedd gael cymorth. Unwaith y byddai diagnosis o Ddementia yn cael ei roi, yn dibynnu ar lefel yr angen, byddai cleifion yn cael eu gweld gan y Gwasanaethau Cymunedol a byddai cynllun cymorth yn cael ei bennu er mwyn i asiantaethau allanol (fel MIND) gymryd rhan.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y wybodaeth a ddarparwyd ganddynt i'r Pwyllgor a chroesawodd ddiweddariadau cynnydd yn y dyfodol.

Ar ddiwedd trafodaeth y Pwyllgor:

***<u>Penderfynwyd</u>:  derbyn y wybodaeth a ddarparwyd ar arferion gwaith Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol y Cyngor, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â materion iechyd***

***meddwl, gan gynnwys eu trefniadau gweithio mewn partneriaeth sy'n anelu at sicrhau diogelwch unigolion mewn argyfwng a darparu cymorth priodol i'r rhai sydd ei angen.***

**8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR**

Dim.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11.50am**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | **18 Mai 2023** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Lisa Jones, Pennaeth dros dro Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Rhian Evans - Cydlynydd Craffu** |
| **Teitl** | **Adolygu Penderfyniad y Cabinet yn ymwneud â'r Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Adolygiad o dan drefn 'galw i mewn' Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet, ar 25ain Ebrill 2023, ynghylch 'Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin'.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Cyflwynwyd rhybudd o 'alw i mewn' gan 5 cynghorydd nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhybudd (ynghlwm yn Atodiad A) yn galw am adolygiad gan un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor o benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 25ain Ebrill 2023, ynglŷn â'r 'Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin'.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor:

3.1. wedi ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'i atodiadau, ynghyd â sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth, yn penderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ymwneud â'r ''Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer y Gronfa

Ffyniant Gyffredin', a wnaed ar 25ain Ebrill 2023, yn ôl i'r Cabinet ar gyfer ystyriaeth bellach; ac

3.2 os yn gofyn i'r Cabinet ailystyried ei benderfyniad gwreiddiol, yn nodi'r rhesymau dros ofyn am adolygiad a llunio argymhellion yr hoffai i'r Cabinet eu hystyried

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 25ain Ebrill 2023, bu i'r Cabinet ystyried adroddiad yn ymwenud â'r 'Ceisiadau ar y Rhestr Fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin' (copi ynghlwm yn Atodiad B). *Mae'r atodiadau i Atodiad B wedi ei eithrio rhag eu cyhoeddi yn unol â Pharagraff 14, Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

4.2 Ar ddiwedd y drafodaeth penderfynodd y Cabinet ei fod yn:

*(a) cadarnhau eu bod wedi deall y broses ymgeisio a llunio rhestr fer ac yn cymeradwyo bod y gweithdrefnau hynny'n deg ac agored.*

*(b) cytuno i ariannu'r prosiectau a roddwyd ar y rhestr fer gan y Grŵp Partneriaeth Craidd (Atodiad C yr adroddiad) a*

*(c) rhoi pwerau dirprwyol i'r Arweinydd i wneud penderfyniadau dilynol, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol a Chyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi. Efallai y bydd angen y penderfyniadau hynny pe bai'r amgylchiadau a nodwyd ym mharagraffau 4.9, 4.10 a 4.11 yr adroddiad yn digwydd.*

4.3 Mae trefn galw i mewn y Cyngor yn diffinio proses i Graffu ddefnyddio ei bwerau statudol i adolygu neu graffu penderfyniadau gweithredol, ac i ofyn i'r sawl a wnaeth y penderfyniad i ailystyried penderfyniad a wnaed, cyn ei weithredu

4.4 Cyhoeddwyd penderfyniad y Cabinet ar 27ain Ebrill 2023. Mae'r drefn 'galw i mewn' yn caniatáu i gynghorwyr nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet i gael 5 diwrnod i gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn'. Bu i'r Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gyflwyno rhybudd o 'alw i mewn' yn electronig ar 28ain Ebrill 2023. Cefnogwyd y cais hwn o fewn y terfyn amser a ganiateir (trwy negeseuon e-bost unigol) gan bedwar cynghorydd arall nad ydynt aelodau o'r Cabinet, sef y Cynghorwyr Pauline Edwards, Merfyn Parry, Hugh Hesketh Evans a Mark Young.

4.5 Mae'r rheswm a nodwyd dros 'alw'r penderfyniad i mewn' fel a ganlyn:

"Mae dyraniad o 25.6 miliwn wedi'i wneud i Sir Ddinbych drwy Gronfa Ffyniant y DU. Rhaid cadw at broses agored a thryloyw ar gyfer dyrannu'r cronfeydd hynny.

Diffyg dealltwriaeth o'r broses ymgeisio a llunio rhestr fer. Nid oes tystiolaeth o fatrics sgorio a chafodd ei ddisgrifio fel "Celf, nid gwyddor". Dim digon o dystiolaeth ar sut mae prosiectau wedi cael eu dyfarnu a'u cymeradwyo. Diffyg tystiolaeth yn alinio'r broses â chanllawiau llywodraeth y DU. Dim tystiolaeth o hawl i apelio ar gyfer ymgeiswyr na chasglu gwybodaeth ychwanegol i gefnogi'r ceisiadau. Diffyg ymgynghori gyda'r holl aelodau yn y broses."

4.6 Mae trefn 'galw i mewn' y Cyngor yn nodi y dylid cynnal cyfarfod arbennig o bwyllgor craffu o fewn 5 diwrnod o dderbyn y Rhybudd o Alw Penderfyniadau i Mewn oni bai bod gan bwyllgor craffu gyfarfod wedi ei drefnu o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r drefn hefyd yn nodi y gellir ymestyn y cyfnod hwn os yw'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad a chadeirydd y pwyllgor craffu yn cytuno i estyniad. Er mwyn hwyluso darparu digon o wybodaeth gefndirol i alluogi'r Pwyllgor i adolygu'n fanwl sail penderfyniad y Cabinet, cytunwyd ar estyniad i'r amserlen. Felly dyma ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn yn y cyfarfod presennol.

4.7 Mae'r wybodaeth gefndirol y sonnir amdano uchod, ac sydd ynghlwm yn Atodiad C, yn cynnwys gwybodaeth am amserlen y Gronfa, digwyddiadau a dyddiadau allweddol, ynghyd â chopïau o'r e-byst a anfonwyd at gadeiryddion Grwpiau Aelodau Ardal y Cyngor ac aelodau Grŵp Partneriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn am eu cymorth i annog, cydlynu a darparu sylwadau ar y ceisiadau am arian y Gronfa Ffyniant.Gyffredin. Yn ogystal â'r uchod, roedd y canllawiau canlynol ar gael i bawb eu cyrchu ar wefan y Cyngor:

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU  Cyngor Sir Ddinbych

Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU: Cam 1 – Sut i gyflwyno prosiect manwl  Cyngor Sir Ddinbych

4.8 Ar ôl ystyried penderfyniad y Cabinet a'r holl sylwadau a wnaed yn y cyfarfod presennol, rhaid i'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau benderfynu os dylid cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet ai peidio. Os penderfynir bod angen cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet bydd angen i'r Pwyllgor ddarparu ei resymau dros ei gyfeirio'n ôl, ynghyd â gwybodaeth glir ar beth sydd angen i'r Cabinet ei ystyried. Byddai'r Cabinet yn ystyried y cyfeirio a'r rhesymau a gyflwynwyd i gefnogi'r cyfeirio yn ei gyfarfod nesaf ar 23ain Mai 2023. Yn y cyfarfod hwnnw disgwylir i'r Cabinet ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei roi i argymhellion y Pwyllgor Craffu.

4.9 Bydd gan y Cabinet y dewis i newid neu ail-gadarnhau ei benderfyniad gwreiddiol.

4.10 Os yw'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn penderfynu na ddylid cyfeirio penderfyniad y Cabinet yn ôl i'r Cabinet, yna gellir gweithredu'r penderfyniad gwreiddiol yn syth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Gweler Adran 5 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25ain Ebrill 2023 (Atodiad B).

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Gweler Adran 6 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25ain Ebrill 2023 (Atodiad B).

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Gweler Adran 7 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25ain Ebrill 2023 (Atodiad B).

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi o dan ddarpariaethau ac amserlenni Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 'galw i mewn' penderfyniad Cabinet.

8.2 Mae manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn i'r Cabinet wneud ei benderfyniad i'w gweld yn Adran 8 o adroddiad y Cabinet dyddiedig 25 Ebrill 2023 (Atodiad B).

8.3 Mae manylion yr ohebiaeth a'r ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Grwpiau Aelodau Ardal a'r Grŵp Partneriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych i'w gweld yn Atodiad C i'r adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Gweler Adran 9 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25ain Ebrill 2023 (Atodiad B).

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Gweler Adran 10 adroddiad y Cabinet dyddiedig 25ain Ebrill 2023 (Atodiad B).

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae pwerau craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u nodi yn:

- Adran 21(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac
- Adrannau 7.2.1 ac Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Annex A

CYNGOR
Sir Ddinbych
Denbighshire
COUNTY COUNCIL

***NOTICE OF CALL IN OF DECISION***

**To: Head of Legal and Democratic Services**

**We, the undersigned, wish to call in the following decision** ***(see note 1).***

**Decision taken by** ***(see note 2):*** Cabinet

**Date decision was taken:** 25/4/23

**Report Title:** Applications shortlisted SPF

**Decision** ***(see note 3):*** confirms understanding, agrees projects, grants delegated powers

**Reason for Call In:**

We *(see note 4)* request that according to the Council's approved 'call in' procedure rules *(see note 5)* a meeting of the most appropriate Overview and Scrutiny Committee be held within 5 working days *(see note 6)* of the date of your receipt of this notice.

1. Huw Hilditch-Roberts (print) (signature)
2. Merfyn Parry (print) (signature)
3. Mark Young (print) (signature)
4. [redacted] (print) (signature)
5. Pauline Edwards (print) (signature)

**Dated:** 28/04/2023

*Signatory 4 replaced by Cllr. Hugh H Evans*

**Subject:** Call in
**Date:** 28 April 2023 14:02:18

Dear all

Please see the form and reason for the call in below. Please can the member's named reply by email to confirm that they support the call in thanks.

REASON FOR CALL IN

An allocation of 25.6 million has been made to Denbighshire through the Uk Prosperity Fund. An open and transparent process must be adhered to for the allocation of those funds.

Lack of understanding of the application and shortlisting process. There is no evidence of a scoring matrix and was described as " Art, not a science ".
Not sufficient evidence on how projects have been awarded and approved. A lack of evidence aligning the process with the UK government guidelines. No evidence of a right of appeal for applicants or extra information gathering to support the applications. Lack of consultation with all members in the process.

Huw

sir ddinbych denbighshire
Cyngor / County Council

**ATODIAD B**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod** | Dydd Mawrth 25 Ebrill 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau |
| **Awdur yr Adroddiad** | Nicola Kneale, Cyd-Bennaeth Dros Dro y Gwasanaeth Cefnogi: Perfformiad, Digidol ac Asedau |
| **Teitl** | Ceisiadau ar y rhestr fer ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Argymhellion gan y Grŵp Partneriaeth Craidd o ran pa geisiadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin y dylid eu cymeradwyo gan y Cabinet.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r Cabinet ynglŷn â'r broses sydd wedi'i dilyn i gefnogi'r broses ymgeisio a llunio rhestr fer sy'n gysylltiedig â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a chadarnhau eu boddhad â'r broses.

2.2. Mae angen penderfyniad o ran a ddylid cymeradwyo'r ceisiadau sydd ar y rhestr fer sydd wedi'u hargymell gan y Grŵp Partneriaeth Craidd.

2.3. Dylid nodi bod Atodiadau'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion yr holl geisiadau a'u canlyniadau a argymhellir. Oherwydd bod y wybodaeth yn ymwneud â materion ariannol a busnes y sefydliadau sy'n ymgeisio, bydd yr atodiadau'n cael eu cyhoeddi o dan Ran 2. Pan fydd y Cabinet wedi cytuno ar y prosiectau i'w rhoi ar y rhestr fer a bod yr ymgeiswyr wedi derbyn hysbysiad o'u llwyddiant neu fel arall, bydd canlyniad y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi.

2.4. Ar ôl llunio rhestr fer, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn gwahoddiad i gyflwyno gwybodaeth ategol ('Cam 2') a fydd yn galluogi cyflawni gwiriadau

diwydrwydd dyladwy ac ati.  Nid proses gystadleuol yw hon, ond mae siawns na fydd y prosiectau ar y rhestr fer yn parhau os yw'r gwiriadau'n aflwyddiannus. Pe bai hyn yn digwydd, mae'r adroddiad yn gofyn am ganiatâd y Cabinet i ddirprwyo'r gallu i wneud penderfyniad i'r Arweinydd mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, a Chyfarwyddwr Corfforaethol:   Yr Amgylchedd a'r Economi.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi deall y broses ymgeisio a llunio rhestr fer ac yn cymeradwyo bod y gweithdrefnau hynny'n deg ac agored.

3.2. Bod y Cabinet yn cytuno i ariannu'r prosiectau a roddwyd ar y rhestr fer gan y Grŵp Partneriaeth Craidd yn Atodiad C.

3.3. Bod y Cabinet yn rhoi pwerau dirprwyol i'r Arweinydd i wneud penderfyniadau dilynol, mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi. Efallai y bydd angen y penderfyniadau hynny pe bai'r amgylchiadau a nodwyd ym mharagraffau 4.9 a 4.11 yn digwydd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Agorodd y rownd ymgeisio ar gyfer cyllid blwyddyn 2 a 3 ar 31 Ionawr 2023, ac roedd ar agor tan 24 Chwefror 2023.  Fe'i hyrwyddwyd ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy rwydweithiau penodol fel Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned; Cynghorwyr Sir; ymgeiswyr ar gyfer y Gronfa Adfywio Cymunedol, partneriaid ac ati.  Roedd gwybodaeth ar wefan CSDd hefyd yn nodi lefelau cyllid yn ôl themâu, a lefel cyfalaf a refeniw ar gyfer blwyddyn 2 a 3 ar gyfer pob thema.  Roedd hyn yn galluogi ymgeiswyr i ddatblygu cynigion ar sail gwybodaeth, yn seiliedig ar y lefelau cyllid sydd ar gael.

4.2. Derbyniodd Sir Ddinbych 110 o geisiadau. Roedd 70 o'r ceisiadau yn geisiadau rhanbarthol (ar gyfer Sir Ddinbych ac o leiaf un sir arall) gyda'r 40 arall yn ddarpariaeth uniongyrchol yn Sir Ddinbych yn unig.  Cyfanswm gwerth y ceisiadau a dderbyniwyd yn Sir Ddinbych oedd £88.7m, o gymharu â dyraniad o £25.6m.  Felly mae mwy o geisiadau ar gyfer y gronfa na'r adnoddau sydd ar

gael. Dylid nodi hefyd roedd rhai paramedrau manwl a nodwyd gan Lywodraeth y DU ar lefelau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer blynyddoedd 2 a 3, a'r gyfran o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael ar gyfer pob blwyddyn, fel a ganlyn:

Blwyddyn 2: £5,150m (gros) - isafswm o 12.5% cyfalaf - a £1,545m ar gyfer Multiply

Blwyddyn 3: £13,493m (gros) - isafswm o 17.9% cyfalaf - a £1,545m ar gyfer Multiply

Mae Sleid 1 Atodiad C yn darparu trosolwg llawn o'r arian a dderbyniwyd, gan gynnwys y lefel a gadwyd ar gyfer gwaith gweinyddol yn Sir Ddinbych a'r tîm rhanbarthol, ynghyd â'r arian a ddyrannwyd yn flaenorol i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chadwyn Clwyd (gweler paragraff 4.4.).

4.3. Mae tîm CSDd sydd wedi arwain ar ddatblygiad Cynllun Buddsoddi y Gronfa Ffyniant Gyffredin a threfniadau eraill wedi cynnal sgriniad cychwynnol o'r ceisiadau i wirio eu bod yn pasio 3 gwiriad sylfaenol. Roedd y gofynion hyn wedi'u nodi ar ein gwefan wrth i bobl gael mynediad at y ffurflen gais, a'r gofynion oedd:

i. Darparu'r prosiectau o fewn ôl-troed y sir;

ii. Bod gwerth y prosiect yn isafswm o £250mil;

iii. Roedd yn rhaid i'r cynnig gydweddu'n strategol ac ni ddylai ddyblygu darpariaeth bresennol.

O ganlyniad i hyn, bu i 11 cais fethu â phasio'r sgriniad cychwynnol. Cyfeirir atynt yn Atodiad A.

4.4. Yn y cyfarfod ym mis Chwefror, bu i'r Cabinet gymeradwyo argymhelliad y Grŵp Partneriaeth i gomisiynu Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chadwyn Clwyd (yn y drefn honno) i ddarparu ar y themâu canlynol:

i. Iachach, Hapusach, Gofalgar: Meithrin Gallu Cymunedol

ii. Ffyniannus: Cefnogi Busnesau ar draws y Sir

O ganlyniad i hynny, roedd ceisiadau a oedd yn ceisio arian i ddarparu yn erbyn y themâu hyn yn cael eu sgrinio gan dîm CSDd, oherwydd bod yr arian

eisoes wedi'i ddyrannu. Mae'r 39 prosiect a oedd yn disgyn i'r categori hwn wedi'u rhestru yn Atodiad A, a byddant yn cael eu cyfeirio at Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Chadwyn Clwyd i gael trafodaeth bellach.

4.5. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ceisiadau sydd heb gyrraedd y rhestr fer yn rhai heb fuddiannau. Er enghraifft, yn aml nid yw prosiect wedi cyrraedd y rhestr fer oherwydd bod cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd wedi rhagori ar lefel y cyllid sydd ar gael. Mae hyn yn dangos bod awydd cryf i ddarparu prosiectau yn y sir, ac mae'n rhaid cofio mai dim ond un ffynhonnell o gyllid yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (ynghyd â chyllid ffermydd gwynt, y loteri, cronfa perchnogaeth gymunedol ac ati). I gydnabod hyn, ac i gefnogi'r prosiectau hynny, byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd sydd heb gyrraedd y rhestr hir (yn dilyn penderfyniad y Cabinet) i roi gwybod iddynt am y canlyniad ac i'w cyfeirio at ffynonellau eraill o gefnogaeth fel y bo'n briodol. Ar gyfer y rhai sydd heb basio'r gwiriadau sylfaenol efallai y bydd angen eu cyfeirio at dîm Datblygu Cymunedol CSDd i gael cyngor am gyllid neu at Dîm Datblygu Economaidd a Busnes CSDd. Bydd y rhai sydd wedi gwneud cais am arian sydd eisoes wedi'i ddyrannu i Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych neu Gadwyn Clwyd, yn cael eu cyfeirio at y sefydliadau hynny fel y bo'n briodol.

4.6. Mae'r camau a nodir ym mharagraffau 4.3 a 4.4 wedi arwain at greu rhestr hir o brosiectau i'w hystyried. Dosbarthwyd dadansoddiad o'r prosiectau hyn i'r grŵp partneriaeth ehangach, a gwahoddwyd eu sylwadau ar y cynigion o ran eu cynnig strategol a'r gallu i'w darparu. Mae'r grŵp partneriaeth ehangach yn cynnwys budd-ddeiliaid a nodir o dan ganllawiau Llywodraeth y DU (sefydliadau eraill y sector cyhoeddus, cynrychiolwyr y gymuned fusnes, Aelodau Seneddol ac ati) a Chadeiryddion Grwpiau Ardal yr Aelodau CSDd a'r Tîm Arwain Strategol. Derbyniwyd 12 ymateb, a rhannwyd yr ymatebion gyda'r Grŵp Partneriaeth Craidd yn ystod y trafodaethau ynglŷn â'r rhestr hir. Gellir gweld y rhain yn Atodiad B.

4.7. Cyfarfu'r Grŵp Partneriaeth Craidd ar 21 Mawrth 2023 i adolygu'r rhestr hir gyda'r nod o gytuno ar argymhellion i'w cyflwyno i'r Cabinet i geisio penderfyniad yn y cyfarfod ar 25 Ebrill 2023. I hwyluso hyn, trefnwyd y ceisiadau fesul thema (yn unol â Chynllun Buddsoddi CSDd), a rhoddwyd gwybodaeth i'r Grŵp yn nodi lefel cyffredinol y cyfalaf a'r refeniw sydd ar gael

ym mlwyddyn 2 a blwyddyn 3, a manylion perthnasol am bob prosiect (gan gynnwys rhaniad cyfalaf a refeniw flwyddyn ar ôl blwyddyn). Tasg y Grŵp oedd blaenoriaethu ceisiadau yn erbyn y gyllideb a ddarparwyd.

4.8. Mae Atodiad C yn nodi'r prosiectau ar y rhestr fer -fesul thema - (sleid gyntaf ar gyfer bob thema) ac sydd wedi'u hargymell i'w cymeradwyo, a'r rhai a ystyriwyd ond na chyrhaeddodd y rhestr fer (ail sleid ar gyfer bob thema). Mae lledaeniad effaith ddaearyddol y rhestr fer arfaethedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---:|
| Ledled y sir | 21 |
| Elwy | 2 |
| Y Rhyl | 2 |
| Dyffryn Dyfrdwy / Elwy | 1 |
| Dyffryn Dyfrdwy | 1 |
| Rhuthun / Dyffryn Dyfrdwy | 1 |
| Y Rhyl / Prestatyn / Elwy | 1 |

4.9. Roedd sawl cais yn rhanbarthol. Mae gan bob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yr hawl i wneud eu penderfyniadau lleol a ydynt am gefnogi pob cais, ond bydd gwahanol benderfyniadau yn cael effaith ar y darlun rhanbarthol. Mae'n bosib y bydd rhai prosiectau yn bosibl os yw'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru yn eu cymeradwyo ond nad ydynt yn hyfyw bellach os mai dim ond hanner Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru sy'n eu cymeradwyo (mae'r terfynau amser ar gyfer llunio penderfyniadau yn wahanol, felly nid ydym yn sicr o'r darlun llawn eto). Er enghraifft, efallai na fydd gwerth y prosiect yn cyrraedd

yr isafswm trothwy o £250,000. Felly argymhellir bod y Cabinet yn rhoi awdurdod dirprwyol i'r Arweinydd i wneud y penderfyniad terfynol (yn unol â pharagraff 3.3) o ran a ddylid parhau gyda'r prosiectau rhanbarthol, pan fydd y darlun rhanbarthol llawn yn eglur (diwedd Mai mae'n debyg). Dylid nodi bod y broses o wneud penderfyniadau'n wahanol ar draws y rhanbarth; dim ond CSDd sy'n cyflwyno penderfyniadau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r Cabinet er enghraifft.

4.10. Nodwyd eisoes nad yw'r rhai sydd heb gyrraedd y rhestr fer yn rhai heb fuddiannau - ond mae cyfyngiad o ran yr hyn y gellir ei ariannu. Felly argymhellodd y Grŵp rai prosiectau i'w rhoi ar restr wrth gefn, pe bai cyllid ar gael. *Mae'r rhain mewn testun italig ar yr ail sleid ar gyfer pob thema* . Sylwer, efallai y bydd arian ar gael os yw rhai prosiectau nad ydynt yn hyfyw bellach, yn cael eu lleihau ac ati; nid oherwydd ein bod yn disgwyl mwy o arian o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar hyn o bryd.

4.11. Rhoddodd tîm y Gronfa Ffyniant Gyffredin gyngor i'r Grŵp Partneriaeth Craidd bod lefel o oddefiant os yw gwerth y ceisiadau ar y rhestr fer yn rhagori ar yr arian sydd ar gael, gan fod modd y bydd costau prosiectau'n newid, a bydd rhai prosiectau yn cael eu lleihau i sicrhau fforddiadwyedd. Gofynnir i'r Cabinet awdurdodi pwerau dirprwyol i'r Arweinydd i wneud penderfyniadau dilynol, mewn ymgynghoriad ag Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol, a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi, yn unol ag argymhelliad 3.3.

4.12. Mae nodyn pwysig yn ymwneud â thema Pobl a Sgiliau. Mae rhai ceisiadau yn dyblygu cynnig Sir Ddinbych yn Gweithio, ond hefyd yn cynnig gwerth ychwanegol at waith craidd Sir Ddinbych yn Gweithio (e.e. yn ymgysylltu â grwpiau poblogaeth penodol). Gan fod CSDd wedi ymrwymo i fodel Sir Ddinbych yn Gweithio - ac er mwyn lliniaru dyblygu darpariaeth a'r canlyniadau fydd yn deillio o hynny - mae'r Grŵp Partneriaeth yn argymell nad yw'r prosiectau hyn yn cael eu rhoi ar y rhestr fer, ond, yn hytrach bod Sir Ddinbych yn Gweithio yn defnyddio'r balans o £1,029 miliwn o'r thema i gomisiynu gwasanaethau gan y sefydliadau hyn.

4.13. Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr aflwyddiannus a'u cyfeirio i gael cyngor pellach. Bydd gofyn i'r rhai ar y rhestr

fer ddarparu manylion pellach i alluogi cyflawni gwiriadau hyfywedd a diwydrwydd dyladwy agosach (Cam 2). Bydd hyn yn cynnwys ceisio strategaeth gwblhau ar gyfer pob prosiect. Bydd y gwiriadau yn rhai safonol ar draws Gogledd Cymru o dan system a ddyluniwyd gan Gyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Arweiniol. Nid bwriad y rownd fydd galluogi llunio rhestr fer arall; yn hytrach mae'n darparu sicrwydd bod modd darparu'r prosiectau a bod cynllun i ddelio ag unrhyw atebolrwydd ar ddiwedd y prosiect.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Cynllun Buddsoddi ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi'i ddatblygu yng nghyd-destun themâu ein cynllun corfforaethol, ac mae'r argymhellion wedi'u llunio yn y cyd-destun hwn hefyd. Yn nodedig, bydd y prosiectau a gymeradwyir yn cael effaith gadarnhaol o dan y themâu canlynol:

1. Sir Ddinbych ffyniannus
2. Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalgar
3. Sir Ddinbych sydd yn dysgu a thyfu.
4. Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well
5. Sir Ddinbych mwy gwyrdd
6. Sir Ddinbych teg, diogel a mwy cyfartal
7. Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r arian sy'n ofynnol i ddarparu'r prosiectau yn cael ei ddarparu drwy grant gan Lywodraeth y DU. Rhoddwyd ystyriaeth i'r gallu i ddarparu drwy gydol y broses o lunio'r rhestr fer. Bydd unrhyw fygythiadau i'r gallu i ddarparu sy'n codi yn cael eu trin fesul achos.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â dyfarnu cyllid o dan Gynllun Buddsoddi Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych, ac felly nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les. Efallai y bydd prosiectau unigol sy'n cael eu darparu gan CSDd gyda'r cyllid yn destun Asesiad o Effaith ar Les, ond nid y penderfyniad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r rhestr hir wedi'i rannu'n electronig gyda Grŵp Partneriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir Ddinbych (gan gynnwys y Tîm Arwain Strategol a Grwpiau Ardal Aelodau) a gofynnwyd iddynt am eu hadborth. Roedd unrhyw adborth a gafwyd wedi'i nodi yng nghyfarfod Grŵp Partneriaeth Craidd Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir Ddinbych ar 21 Mawrth 2023, ac mae wedi'i nodi yn Atodiad B.

8.2. Cynhaliwyd sesiwn i lunio'r rhestr fer gyda'r Grŵp Partneriaeth Craidd ar 21 Mawrth 2023.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r adroddiad yn nodi'r broses a'r argymhellion gan y Grŵp Partneriaeth Craidd. Yn amlwg croesewir cyllid grant, ond mae angen rheoli natur amser cyfyngedig y cyllid presennol ar gyfer prosiectau refeniw yn ofalus dros y ddwy flynedd sydd i ddod.

## 10. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg i enw da pe bai ymgeiswyr aflwyddiannus yn anfodlon â'r penderfyniad. Dyma pam y bydd gohebiaeth brydlon i gyfeirio at gefnogaeth yn y dyfodol yn ddefnyddiol, ynghyd â nodi lefel y ceisiadau a dderbyniwyd yn erbyn lefel y gronfa.

10.2. Mae 75% o'r cyllid wedi'i ddyrannu i brosiectau CSDd. Mae risg i enw da os bydd eraill yn gweld hyn yn annheg. Y rhesymeg yw bod cynnig strategol yn ystyriaeth allweddol, a bod y prosiectau ar y rhestr fer yn cyd-fynd orau gyda'r Cynllun Buddsoddi a ddatblygwyd gan y Cyngor. Gyda threfniadau llywodraethu da ar waith yn y Cyngor, nid yw'r canlyniad yn annisgwyl. Er

hynny, mae angen eglurhad gofalus o ran pwysigrwydd y cynnig strategol a’r cyfle y mae sefydliadau eraill wedi’i gael i gyfrannu at lunio penderfyniadau, ochr yn ochr â’r cynnig o gefnogaeth barhaus.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol dan a.24 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**ANNEX C**

## Shared Prosperity Fund Key Dates Nov 2022 – July 2023

**November 2022**

- 15th Nov - SPF Briefing for Wider Partnership Group (see below for definition and membership of this Group)

**December 2022**

- 1st Dec - SPF Update sent to Wider Partnership Group Yr1 Projects & Eligibility
- 8th - 15th Dec - SPF Year 1 applications consultation with Wider Partnership Group
- 19th Dec - SPF Core Partnership Group Meeting - Yr 1 Projects Recommendations (see below for definition and membership of this Group)

**January 2023**

- 9th Jan - Cabinet Briefing - Year 1 projects and recommendations
- 9th - 13th Jan - SPF Theme, Interventions, Output & Outcome information on DCC Website
- 24th Jan - Cabinet - Year 1 Applications for recommendation
- 25th Jan - SPF Core Partnership Group Meeting - Key funds
- 31st Jan - Stage 1 (S1) Guidance information available online & SPF S1 Application go live (open until 24th Feb)

**February 2023**

- 6th Feb - Cabinet Briefing - Key funds
- 21st Feb - Cabinet - Key funds
- 27th Feb - Application Appraisals begins with SPF Internal Officers Group

**March 2023**

- 1st - 15th Mar - S1 Application Consultation with SPF Wider Partnership Group & MAG (via MAG Chairs)
- 15th - 17th Mar – SPF Wider Partnership Group & MAG feedback on applications collated for Core Partnership Group Mtg
- 17th Mar - S1 Feedback sent to Core Partnership Group
- 21st Mar - SPF Core Partnership Group Meeting Year 2 & 3 S1 Applications
- 27th Mar - Cabinet Briefing Papers Deadline Year 2 & 3 S1 Applications

**April 2023**

- 3rd Apr - Cabinet Briefing - Year 2 & 3 S1 Applications
- 3rd Apr – Stage 2 (S2) Guidance information available online
- 11th Apr - Cabinet Papers Deadline - Year 2 & 3 S1 Applications
- 25th Apr - Cabinet - SPF Year 2 & 3 S1 Application Recommendations

**Shared Prosperity Fund Core Partnership – Membership**

- DCC Lead Cabinet Member for Regeneration (Chair)
- Director of Economy, Environment & Communities
- DCC Lead Member for Equality
- DVSC
- Cadwyn Clwyd
- North Wales Police

**Shared Prosperity Fund Partnership – Members invited to advise**

- North West & North Wales Chamber of Commerce
- Federation of Small Business
- Business Wales
- Ambition North Wales
- Betsi Cadwaladr University Health Board
- Denbighshire Employment Network
- Denbighshire Tourism Forum
- Welsh Government Representative
- Grwp Llandrillo Menai
- Natural Resources Wales
- Denbighshire Countryside Services
- Denbighshire Climate Change Program
- Denbighshire Member Area Groups (via the Chair)
- Local Members of Parliament
- Local Members of Senedd
- Local Political Group Leaders

In addition to this Multi LA Projects have also been circulated by the Regional Team for comment to:

- North Wales Regional Skills Partnership
- North Wales Mersey Dee Business Council

**From:** Shared Prosperity Fund
**To:** [redacted]
**Subject:** Gronfa Ffyniant Gyffredin / Shared Prosperity Fund
**Date:** 15 February 2023 10:11:00

---

Annwyl Gadeiryddion Grwpiau Ardal Aelodau

Fe fyddwch yn ymwybodol o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin sy'n rhan o gyfres ariannu Ffyniant Bro Llywodraeth y DU.

Mae ceisiadau am y cyllid hwn nawr ar agor, a dydd Gwener 24 Chwefror yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais. Mae'r broses ymgeisio wedi ei hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a thrwy ein rhwydweithiau.

Rhan orfodol o'r broses o lunio penderfyniadau yn ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yw sefydlu Grŵp Partneriaeth (gweler y briff sydd ynghlwm). Mae'r Grŵp Partneriaeth yn un ymgynghorol o ran natur, a chaiff ei wahodd i wneud sylwadau ar geisiadau a dderbynnir gan ystyried y canlynol:

1. Cyweddu Strategaethau
2. Cyflawnadwyedd

Mae Arweinwyr Grŵp eisoes wedi eu gwahodd i fod yn rhan o'r Grŵp Partneriaeth. Fe hoffem hefyd ychwanegu Cadeiryddion y Grwpiau Ardal Aelodau i'r grŵp hwn, ac fe fyddwn yn eich gwahodd i gydlynu a chyflwyno sylwadau ar geisiadau yn unol â'r uchod **ar ran y Grŵp Ardal Aelodau rydych yn ei Gadeirio**.

Fe fydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â dyddiadau ayb ar gael yn fuan. Mae'n rhaid i ni bwysleisio fod yna amserlen dynn yn gysylltiedig â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (mae'n rhaid bod wedi cyflawni erbyn Rhagfyr 2024) ac felly mae dyddiad cau llym ar gyfer derbyn sylwadau er mwyn galluogi i argymhellion gael eu gwneud i'r Cabinet ddydd Mawrth 25 Ebrill. Nid yw'r dyddiad cau yn cyd-fynd â chyfarfodydd y Grŵp Ardal Aelodau ac felly gofynnwn i gyfathrebu angenrheidiol ddigwydd rhwng aelodau'r Grŵp Ardal Aelodau y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol (h.y. yn electronig neu yn anffurfiol).

Dear MAG Chairs.

You'll be aware of the Shared Prosperity Fund, which is part of the UK Government's Levelling Up suite of funding.

Applications for this funding are now open, with a submission deadline of Friday 24 February. The application process has been promoted via social media, press releases, and via our networks.

A compulsory part of the Shared Prosperity Fund decision-making process is the establishment of a Partnership Group (please see attached Briefing). The Partnership Group is advisory in nature, and is invited to comment on applications received in view of the following:

1. Strategic Fit
2. Deliverability

Group Leaders have already been invited to be part of the Partnership Group. We would also like to add MAG Chairs to this group, and will invite you to coordinate and submit comments on applications as per the above **on behalf of the MAG that you Chair**.

Further information about dates, etc. will soon be forthcoming. We must emphasise that there is a tight timetable associated with the Shared Prosperity Fund (delivery must be complete by December 2024) and therefore a strict deadline for receipt of comments in order to enable recommendations to be made to Cabinet on Tuesday 25 April. This deadline does not align with MAG meetings, so we'd ask that necessary communication undertaken by MAG members takes place outside of formal meetings (i.e. electronically or on an informal basis).

Cofion cynnes/ Kind regards

[redacted]
Cronfa Ffyniant Gyffredin / Shared Prosperity Fund
Gwella Busnes a Moderneiddio / Business Improvement and Modernisation
Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ / P O Box 62, Ruthin, LL15 9AZ
E-bost / E-mail:sharedprosperityfund@denbighshire.gov.uk

**From:** Shared Prosperity Fund
**Subject:** Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU / UK Shared Prosperity Fund
**Date:** 20 February 2023 08:27:00

Annwyl bawb,

Fel aelodau o Grŵp Partneriaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Cyngor Sir Ddinbych, roeddwn eisiau eich hysbysu fod y broses ymgeisio nawr ar agor. Fe agorodd ddydd Mawrth 31 Ionawr ac mae'r dyddiad cau ddydd Gwener 24 Chwefror. Hysbysebwyd hyn drwy'r cyfryngau cymdeithasol, datganiad i'r wasg a thrwy ein rhwydweithiau. Mae croeso i chi rannu'r ddolen hon. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU | Cyngor Sir Ddinbych

Wrth i'r ffenestr ymgeisio gau fe fyddwn yn casglu'r ceisiadau ynghyd, yn gwneud ychydig o waith sgrinio mewnol i sicrhau fod y ceisiadau yn pasio'r gwiriadau sylfaenol (h.y. eu bod yn ymdrin ag ôl troed y sir, yn bodloni'r trothwy o ran isafswm gwerth) cyn eu trosglwyddo i chi ar gyfer sylwadau. P'run ai darparu adborth gennych chi eich hun fel unigolion yw eich rôl chi neu ar ran sefydliadau neu fuddiannau yr ydych yn eu cynrychioli, fe ofynnir i chi wneud sylwadau ar yr agweddau canlynol:

1. **Cyweddu Strategol (cyfeiriwch at y themâu, ymyriadau, allbynnau a chanlyniadau drwy'r ddolen uchod. Maent o dan y penawdau glas.**
2. **Cyflawnadwyedd (h.y. hyder y gall yr ymgeisydd gyflawni'r prosiect erbyn y dyddiad cau sef Rhagfyr 2024)**

Fe fydd templed yn cael ei rannu gyda chi, yn ogystal â'r ffurflenni cais y byddwn yn gwahodd eich sylwadau arnynt ar **Ddydd Mercher 1af Mawrth.** Gofynnwn i chi ddychwelyd hwn erbyn **Dydd Mercher 15fed Mawrth.** Rydym yn rhoi'r rhybudd hwn i chi er mwyn eich galluogi chi i wneud trefniadau i ddarparu adborth erbyn y dyddiad cau a osodwyd.

Byddwn wedyn yn casglu eich adborth ac yn ei rannu gyda'r Grŵp Partneriaeth Craidd. Rôl y grŵp hwnnw yw gwneud argymhellion i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol ddydd Mawrth 25 Ebrill.

Nodwch os gwelwch yn dda nad oes rhaid i chi ddarparu adborth ar yr holl geisiadau. Fodd bynnag, dim ond os darparwyd adborth yn y fformat y gofynnwyd amdano y gallwn ystyried eich safbwyntiau ar unrhyw rai o'r ceisiadau.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cyfranogiad.

Dear all,

As members of Denbighshire County Council's Shared Prosperity Fund Partnership Group, I wanted to inform you that the application process is now open. It opened on Tuesday 31 January with a closing date of Friday 24 February. It's been publicised via social media, press release and via our networks. Please feel free to share this link with yours: UK Shared Prosperity Fund | Denbighshire County Council

As the application window closes we will collate the applications, do some internal screening to ensure that applications pass basic checks (i.e. that they cover the county footprint, meet the minimum value threshold) before passing them to yourselves for comment. Whether it's your role to provide feedback from yourselves as individuals or on behalf of organisations or interests that you represent, you'll be asked to comment on the following aspects:

3. **Strategic Fit (please reference the themes, interventions, outputs and outcomes on the above link. They're under the blue headings.**
4. **Deliverability (i.e. confidence that the project can be delivered by the applicant by the deadline of December 2024)**

A template will be shared with you, along with the application forms on which we invite your comment on **Wednesday 1st March**. We ask you to return this by **Wednesday 15th March.** We give you this notice to enable you to put necessary arrangements in place to provide feedback by the deadline set.

We will then collate your feedback and share it with the Core Partnership Group whose role it is to make recommendations to Cabinet for formal decision on Tuesday 25 April.
Please note, you are not obliged to provide feedback on all applications. However, we can only consider your views on any of the applications if feedback is provided in the format requested.
Thank you for your support and participation.
Cofion cynnes/ Kind regards

[redacted]
Cronfa Ffyniant Gyffredin / Shared Prosperity Fund
Gwella Busnes a Moderneiddio / Business Improvement and Modernisation
Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ / P O Box 62, Ruthin, LL15 9AZ
E-bost / E-mail:sharedprosperityfund@denbighshire.gov.uk

[redacted]

**From:** Shared Prosperity Fund
**Sent:** 02 March 2023 17:12
**Subject:** Gronfa Ffyniant Gyffredin - cais am adborth / Shared Prosperity Fund - feedback request

Prynhawn da,

Yn dilyn fy neges e-bost a anfonwyd atoch ddydd Llun 20 Chwefror, gallaf gadarnhau bod 111 o geisiadau wedi dod i law Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn dilyn y cyfnod ceisiadau.

Rydym wedi cynnal gwaith sgrinio mewnol i sicrhau bod ceisiadau'n pasio gwiriadau sylfaenol (h.y. eu bod yn cynnwys ôl-troed y sir, ac yn bodloni'r trothwy isafswm gwerth) cyn eu trosglwyddo i chi ar gyfer sylwadau. P'un ai eich rôl yw darparu adborth gennych chi fel unigolion, neu ar ran sefydliadau neu fuddiannau rydych chi'n eu cynrychioli, gofynnwn i chi roi sylwadau ar yr agweddau canlynol os gwelwch chi'n dda:

1. **Cydweddu Strategol** (cyfeiriwch at themâu, ymyriadau, allbynnau a chanlyniadau ar y ddolen uchod. Maen nhw o dan y penawdau glas. Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU | Cygor Sir Ddinbych
2. **Darparu** (h.y. ffydd bod modd i'r ymgeisydd ddarparu'r prosiect erbyn y dyddiad cau sef mis Rhagfyr 2024)

Gan fod y nifer o geisiadau a ddaeth i law ar gyfer Sir Ddinbych mor uchel, yn hytrach nag anfon dogfennau unigol atoch chi i'w darllen, mae taenlen ynghlwm gyda chrynodeb o wybodaeth o'r ceisiadau a ddaeth i law. Sylwch fod y rhesi coch yn dangos prosiectau nad ydynt wedi pasio'r gwiriadau cymhwysedd, ond roeddem yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r wybodaeth hon gyda chi.

Ar ddiwedd pob rhes o brosiectau, mae 4 blwch i chi gofnodi eich adborth ar Gydweddu Strategol, Darparu, Sylwadau Cyffredinol ac unrhyw gysylltiadau rydych chi am eu datgan. Pe baech chi am weld y ffurflenni cais llawn ar gyfer unrhyw un o'r prosiectau, cysylltwch â ni a byddwn yn eu hanfon atoch chi. Mae croeso i chi gysylltu â ni pe baech chi'n cael unrhyw broblemau wrth lenwi'r daenlen.

Gofynnwn i chi ddychwelyd eich taenlen erbyn dydd Mercher 15 Mawrth fan bellaf. Yna byddwn yn casglu eich adborth a'i rannu gyda'r Grŵp Partneriaeth Craidd, a'u rôl fydd gwneud argymhellion i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad ffurfiol ddydd Mawrth 25 Ebrill.

Sylwch, nid oes rheidrwydd arnoch i ddarparu adborth ar bob cais. Fodd bynnag, dim ond os caiff adborth ei ddarparu yn y fformat gofynnol fydd modd i ni ystyried eich barn am unrhyw un o'r ceisiadau.

Diolch i chi am eich cefnogaeth ac am gymryd rhan.

Good afternoon,

Further to my email sent to you on Monday 20th February. I can now confirm for you that following the application window, 111 applications were received by Denbighshire County Council for the Shared Prosperity Fund.

We have undertaken some internal screening to ensure that applications pass basic checks (i.e. that they cover the county footprint, meet the minimum value threshold) before passing them to yourselves for comment. Whether it's your role to provide feedback from yourselves as individuals, or on behalf of organisations or interests that you represent, we ask if you can please comment on the following aspects:

1. **Strategic Fit** (please reference the themes, interventions, outputs and outcomes on the above link. They're under the blue headings. UK Shared Prosperity Fund | Denbighshire County Council
2. **Deliverability** (i.e. confidence that the project can be delivered by the applicant by the deadline of December 2024)

As the number of applications received for Denbighshire was so large, rather than send you individual documents to read, attached is a spreadsheet with a summary of information from the applications received. Please note that the rows highlighted in red are projects that haven't passed the eligibility checks, but we thought it useful to share this information with you.

At the end of each project row there are 4 boxes to capture your feedback on Strategic Fit, Deliverability, General Comments and any Declarations of Interest you may have. Should you wish to see the full application forms for any of the projects, please contact us and we will make them available to you. Please don't hesitate to contact us should you have issues in completing the spreadsheet.

We ask you to return your spreadsheet no later than Wednesday 15th March. We will then collate your feedback and share it with the Core Partnership Group whose role it is to make recommendations to Cabinet for formal decision on Tuesday 25 April.

Please note, you are not obliged to provide feedback on all applications. However, we can only consider your views on any of the applications if feedback is provided in the format requested.

Thank you for your support and participation.

Cofion cynnes / Kind regards
[redacted]

Cronfa Ffyniant Gyffredin / Shared Prosperity Fund
Gwella Busnes a Moderneiddio / Business Improvement and Modernisation
Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council
Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ / P O Box 62, Ruthin, LL15 9AZ

E-bost / E-mail:sharedprosperityfund@denbighshire.gov.uk

| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r** | **Pwyllgor Craffu Partneriaethau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **18 Mai 2023** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau/ Gareth Roberts/ Angela Loftus/ Geoff Davies** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Emlyn Jones - Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol** |
| **Teitl** | **Llwydni ac Anwedd mewn Eiddo yn y Sector Rhentu Preifat a Stoc Dai'r Cymdeithasau Tai** |

## Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ar 15 Tachwedd 2022, rhyddhawyd adroddiad y crwner yn dilyn marwolaeth drasig Awaab Ishak, 8 oed, yn Rochdale.

1.2. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod Awaab wedi marw o gysylltiad hirdymor â llwydni yn fflat cymdeithas dai'r teulu. Dywedodd y Crwner y dylai hyn fod yn "drobwynt" ar gyfer y sector tai.

1.3. Yn dilyn hyn, bu i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at bob landlord cymdeithasol yng Nghymru (sef Cynghorau sydd â stoc dai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig), ar 15 Rhagfyr 2022 yn gofyn am sicrwydd ar sut mae landlordiaid yn ymateb i'r achos. Roedd angen ymateb erbyn 20 Ionawr 2023.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Llywodraeth Cymru'n adolygu pob ymateb ar hyn o bryd a byddant yn darparu crynodeb o'r adborth maes o law. Fel rhan o'r ymatebion, gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol gadarnhau sut y byddant yn craffu ar y mater o fewn eu strwythurau llywodraethu eu hunain.

2.2. Cyflwynodd gwasanaeth Tai Cymunedol Sir Ddinbych adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 16 Mawrth 2023 yn nodi'r camau gweithredu a gymerwyd i atal a mynd i'r afael â llwydni ac anwedd mewn cartrefi cyngor.

2.3. Mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am gynnwys ymateb Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gweithredu yn Sir Ddinbych, sy'n fater ar wahân, fel eitem ar y rhaglen.

2.4. Dylid nodi bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn atebol i'w Byrddau Rheoli unigol eu hunain ac i Lywodraeth Cymru. Nid oes modd i'r Cyngor graffu'n ffurfiol ar ddarpariaeth eu gwasanaeth i'w tenantiaid.

2.5. Byddai'n fater i'r Cyngor yn unig, pe bai tenant un o'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gwneud cwyn i'r Tîm Gorfodaeth Tai o fewn yr Adran Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad ynghylch cyflwr eu cartref. Ymdrinnir â hyn yn yr adroddiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen a deall yr adroddiad a'r sylwadau'n unol â hynny.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn dilyn sylw yn y cyfryngau yn genedlaethol am farwolaeth drasig Awaab Ishak, yn ddealladwy, rhoddwyd llawer o sylw i lwydni ac anwedd mewn tai cymdeithasol.

4.2. Mae'r hyn sy'n achosi llwydni ac anwedd yn gymhleth. Mewn nifer o achosion nid yw gweld llwydni ac anwedd yn golygu fod nam ar yr adeilad y gellir ei drwsio, fodd bynnag gall perfformiad ynni'r adeilad effeithio ar hyn yn ogystal â sut y rheolir gwres ac awyru mewn cartref.

4.3. Daeth y sylw cynyddol hwn ar lwydni ac anwedd ar gyfnod lle'r oedd prisiau ynni'n cynyddu, o gofio bod gwres digonol yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod y tymheredd yn cael ei gadw'n gyson a chymedrol mewn cartref.

4.4. Gall pob tenant yn y Sector Rhentu Preifat, sy'n cynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig at y diben hwn, roi gwybod am faterion o ddiffyg atgyweirio yn eu cartref i dîm gorfodaeth tai'r Cyngor. Mae cwynion ynghylch

tai'r sector preifat wedi parhau'n eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Er bod cwynion am damprwydd a llwydni wedi dod yn fwy amlwg yn ddiweddar, ni fu newid yn y nifer o gwynion cyffredinol yn y Sector Rhentu Preifat.

4.5. Cymerir camau Gorfodi Tai o dan y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) Deddf Tai 2004. Mae'r statud yn cyfyngu pa gamau y gellir eu cymryd ac felly nid yw cwynion am damprwydd a llwydni yn cael eu categoreiddio fel argyfyngau. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu digon o amser i'r landlord archwilio a gwneud gwaith atgyweirio fel rhan o unrhyw gamau gorfodi y gellir eu cymryd.

4.6. Mae gan y tîm Gorfodaeth Tai gofnodion sy'n ymwneud â chamau gorfodi a gymerwyd ar ôl i archwiliadau'r System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS) gael eu cynnal. Mae tamprwydd a llwydni yn un o'r peryglon dan sylw ac a gafodd ei raddio o ran risg yn ystod ymweliad.

4.7. I grynhoi, mae camau gorfodi ar gyfer cwynion am damprwydd a Llwydni wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf -

| **Dyddiad:** | **Y nifer o archwiliadau safle a gynhaliwyd lle nodwyd peryglon a chymerwyd camau gorfodi:** | **Y nifer o'r archwiliadau hyn lle nodwyd perygl o damprwydd a llwydni a chymerwyd camau gorfodi:** | **Canran:** |
|---|---|---|---|
| 01/04/2018– 31/03/2019 | 299 | 105 | 35.2% |
| 01/04/2019 – 31/03/2020 | 257 | 115 | 44.8% |
| 01/04/2021 – 31/03/2022 | 104 | 41 | 39.4% |
| 01/04/2022 – 31/03/2023 | 185 | 54 | 29.2% |

4.8. Yn unol â dechrau'r Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2016 yn gynharach eleni, mae'r tîm Gorfodaeth Tai wedi newid y broses archwilio cwynion i sicrhau bod y landlord yn cael gwybod am unrhyw gwynion a wneir gan eu tenantiaid, er mwyn rhoi'r cyfle iddynt fynd i'r afael â'r materion o ddiffyg atgyweirio, cyn cael eu cynnwys yn ffurfiol. Os bydd y problemau'n parhau ar ôl 21 diwrnod, neu os na fydd cynnydd sylweddol wedi'i wneud, bydd y tîm Gorfodaeth Tai yn trefnu cynnal archwiliad. Mae'r broses newydd yn berthnasol i bob cwyn a dderbynnir, heblaw am argyfyngau a gaiff eu blaenoriaethu a'u harchwilio cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

4.9. O ran Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ni dderbyniwyd llawer o gwynion. Pe bai cwynion o'r fath yn cael eu derbyn, byddai'r tîm Gorfodaeth Tai yn cynghori'r tenant yn y lle cyntaf i gysylltu â'u darparwr tai fel bod cyfle gan eu landlord i fynd i'r afael â'u pryderon yn uniongyrchol. Nid oedd unrhyw achosion gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig lle'r oedd angen uwchgyfeirio neu gyfranogiad pellach.

4.10. O ran eu hymateb i Lywodraeth Cymru, darparwyd copi o'u hymateb gan ddau o'r chwe Landlord Cymdeithasol Cofrestredig lleol. Nid yw'r rhain yn ddogfennau cyhoeddus ac felly ceir crynodeb ohonynt isod er mwyn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor bod Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, fel landlordiaid cyfrifol, wedi ymateb i'r mater. Os bydd angen unrhyw ymyrraeth bellach o ran eu hymatebion, bydd hyn fater ar gyfer Llywodraeth Cymru a'u byrddau rheoli unigol.

4.11. Mae'r ymatebion yn amlinellu gweithredu cadarnhaol yn y meysydd canlynol –

- Caiff pob adroddiad am damprwydd, llwydni ac anwedd eu cofnodi a'u harchwilio, a bydd y llwyth achosion ei fonitro gan uwch swyddog gydag adroddiadau i'r uwch dimau arwain a'r byrddau rheoli.
- Mae prosesau clir ar waith i reoli pob adroddiad gan aelwydydd, er mwyn sicrhau bod camau gweithredu'n ddi-oed.
- Mae prosesau uwchgyfeirio clir ar gyfer aelwydydd sy'n anfodlon â'r ymateb.
- Mae'r data a ddarparwyd yn dangos dealltwriaeth glir o raddau'r mater.
- Mae'r aelwydydd a'r eiddo sydd â'r mwyaf o risg wedi'u targedu ar gyfer ymyrraeth a chymorth.
- Mae pob aelod o staff rheng flaen wedi derbyn hyfforddiant ac ymwybyddiaeth er mwyn gallu nodi a rhoi gwybod am unrhyw faterion yn ymwneud â llwydni ac anwedd.
- Cafwyd gweithgarwch sylweddol o ran ymgyrchoedd cyfathrebu ac o fewn strwythurau ymgysylltu â thenantiaid.
- Mae partneriaethau ar gyfer rhoi cyngor i aelwydydd ynghylch effeithlonrwydd ynni a chyllid aelwydydd ar waith.
- Mae grŵp Gweithredu Diffyg Atgyweirio Gogledd Cymru pob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad

Tenantiaid yng Ngogledd Cymru yn gweithio i geisio lleihau hawliadau diffyg atgyweirio a gwella ymatebion i hawliadau ar y cyd.

- Cafwyd buddsoddiad ac arloesi sylweddol mewn cartrefi i wella mesurau effeithlonrwydd ynni.
